# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 24 a 31 Gorffennaf 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

10 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

16 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

19 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

21 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Cynghorwyr Arbennig i Lywodraeth Cynulliad Cymru (Cost)

**Nick Bourne:** Beth oedd y gost o gyflogi cynghorwyr arbennig i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 1999, a beth yw'r gost heddiw? (WAQ27567)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Y gost o gyflogi cynghorwyr arbennig yn 1999-2000 oedd £110,067.95, a'r gost o gyflogi'r cynghorwyr arbennig cyfredol yw £159,865.25.

### Cynghorwyr Arbennig i Lywodraeth Cynulliad Cymru (Nifer)

**Nick Bourne:** Faint o gynghorwyr arbennig a gafodd eu cyflogi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 1999, a faint sy'n cael eu cyflogi heddiw? (WAQ27568)

**Y Prif Weinidog:** Yn 1999, yr oedd pedwar cynghorydd arbennig yn cael eu cyflogi. Heddiw, mae tri ynghyd â dau ar gontractau tri mis, gydag un ohonynt yn rhan amser. Yr ydym yn y broses o recriwtio tri chynghorydd arbennig amser llawn arall i roi cyfanswm o chwech.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

### Llyfrgell Genedlaethol Cymru (Mesurau Diogelwch)

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddwyn mapiau o werth hanesyddol o Lyfrgell Genedlaethol Cymru, a'r mesurau diogelwch sydd ar waith yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru i sicrhau na chaiff arteffactau a llawysgrifau o bwys diwylliannol eu dwyn? (WAQ27603)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Darganfuwyd yn 2001 fod mapiau hanesyddol wedi cael eu dwyn o'r Llyfrgell Genedlaethol. Cysylltodd y llyfrgell â'r heddlu ar unwaith ac mae wedi gweithredu yn unol â chyngor yr heddlu drwy gydol ymchwiliad yr heddlu, sy'n dal i fynd yn ei flaen.

Adolygodd y llyfrgell ei threfniadau diogelwch yn drylwyr ar ôl y digwyddiad, ac mae rhaglen o well mesurau diogelwch wedi cael ei rhoi ar waith.

Hoffai'r Cynulliad weld ein sefydliadau diwylliannol mawr yn cael eu hagor yn llwyr i'r cyhoedd ac yr ydym yn annog pobl i fynd i weld ein trysorau cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y mesurau diogelwch gorau posibl yn cael eu rhoi ar waith.

### Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer yr ymwelwyr â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ym mhob blwyddyn ers iddi agor? (WAQ27605)

**Alun Pugh:** Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac mae'n ofynnol, felly, iddi gyflwyno cyfrifon blynyddol i Dŷ'r Cwmnïau. Mae nifer yr ymwelwyr a nodir yn y cyfrifon fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Mehefin 2000 (agor) hyd at 31 Mawrth 2001 | 204,302 |
| 1 Ebrill 2001 hyd at 31 Mawrth 2002 | 192,362 |
| 1 Ebrill 2002 hyd at 31 Mawrth 2003 | 142,347 |

**Datblygu Ieithoedd Cymunedol Lleiafrifol**

**Jenny Randerson:** A oes gan y Gweinidog gynlluniau i neilltuo swm o arian i ddarparu grantiau i ddatblygu ieithoedd cymunedol lleiafrifol yng Nghymru? (WAQ27622)

**Alun Pugh:** Fel a nodais yn fy ymateb i WAQ27342, nid oes gennyf gynlluniau i ddarparu grantiau o'r fath o fewn fy mhortffolio i. Yr wyf wedi ymrwymo i gefnogi dwy iaith swyddogol Cymru ac i weithio tuag at greu Cymru wirioneddol ddwyieithog. Wrth gwrs, gall cymunedau lleiafrifol fanteisio ar raglenni grant eraill sy'n hybu datblygu cymunedol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

**Dragon International Studios**

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod Awdurdod Datblygu Cymru yn ceisio denu Dragon International Studios Cyf o'i safle datblygu arfaethedig yn Rhondda Cynon Taf, a hynny er mwyn adfer rhan o'r buddsoddiad gwerth dros £30 miliwn nad oedd wedi'i ddiogelu yn LG yng Nghasnewydd? (WAQ27478)

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod Awdurdod Datblygu Cymru yn cynnig safle LG yng Nghasnewydd heb rent, a hynny er mwyn denu consortiwm Dragon International Studios Cyf o'r safle arfaethedig yn Rhondda Cynon Taf (sy'n ardal Amcan 1)? (WAQ27479)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Nid yw'r naill na'r llall o'r datganiadau hyn yn wir. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru yn credu bod prosiect Dragon International Studios yn un hynod gyffrous, ac yr ydym wedi gweithio'n agos gyda noddwyr y prosiect o'r cychwyn cyntaf.

Mae hwn yn ddatblygiad mawr a chymhleth y mae angen i'r sector cyhoeddus ei ystyried yn fanwl a dyfal iawn cyn inni gytuno i gynnig cymorth ariannol. Mae angen inni sicrhau bod y prosiect yn ddichonadwy yn fasnachol ac y byddai'n cynnig gwaith newydd cynaliadwy cyn y byddwn yn barod i fuddsoddi swm sylweddol o arian trethdalwyr ynddo. Gallwn gadarnhau bod y cwmni wedi dangos diddordeb yn adeilad Hynix yng Nghasnewydd ond, o'n rhan ni, mae'r cwmni a'r sector cyhoeddus yn dal i ganolbwyntio ar y lleoliadau a gynigiwyd yn wreiddiol yn Llanilid.

**Amcan 1**

**Leighton Andrews:** Pa wardiau yn etholaethau Cymoedd y De sy'n cael eu diffinio fel rhai 'gwledig', a faint o wardiau gwledig yn etholaethau Cymoedd y De sydd wedi elwa ar gymorth blaenoriaeth 5 mesur 6 o dan Amcan 1? (WAQ27511)

**Andrew Davies:** Mae a wnelo blaenoriaeth 5 mesur 6 rhaglen Amcan 1 ar gyfer y Gorllewin a'r Cymoedd â hyrwyddo datblygu economaidd yn lleol. Mae'r mesur wedi'u dargedu at ardaloedd penodol ac mae'n cwmpasu'r mannau canlynol yn y Cymoedd:

| | |
|---|---|
| Blaenau Gwent | Cwm; Sirhywi |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Melin Ifan Ddu; Blaengarw; Cefn Cribwr; Corneli; Llangeinor; Llangynwyd; Nant-y-Moel; Castellnewydd Uchaf; Dyffryn Ogwr; Pen-coed |
| Caerffili | Abercarn; Argoed; Cwm Darren ; Maesycwmer; Nelson; St James; Tir-phil; Twyncarno; Ynys-ddu |
| Merthyr Tudful | Belinog; Plymouth; Y Faenor |
| Castell-nedd Port Talbot | Aberdulais; Blaengwrach; Bryn a Chwmafan; Tregatwg; Gorllewin Coed-ffranc; Crynant; Cwmllynfell; Y Cymer; Glyncorrwg; Glyn-nedd; Gwynfi; Brynaman Isaf; Margam; Onllwyn; Pelenna; Pontardawe; Resolfen; Rhos; |

| | |
|---|---|
| | Blaendulais; Tonna |
| Rhondda Cynon Taf | Brynna; Llanharan; Llanhari; Llwydgoed; Maerdy; Dwyrain Aberpennar; Pontyclun; Y Rhigos; Ffynnon Taf; Treherbert; Ynysybwl |
| Abertawe | Dwyrain Dulais; Gorllewin Tre-gŵyr; Llangyfelach; Mawr; Gogledd Gŵyr; Pennard; Pontarddulais; De Gŵyr |
| Tor-faen | Abersychan; Blaenafon; Cwmynysgoi; Two Locks; Waunfelin |

Nid yw'n bosibl nodi pa wardiau fydd wedi elwa o dan flaenoriaeth 5 mesur 6. Fodd bynnag, bu ceisiadau am y cyllid sydd ar gael yn gymharol araf i ddod i law ledled y Cymoedd, ac mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r partneriaethau lleol i annog datblygu prosiectau o dan y mesur hwn.

**Gwariant Cymorth Rhanbarthol Dewisol**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant cymorth rhanbarthol dewisol ar gyfer pob blwyddyn dros y pum mlynedd diwethaf? (WAQ27535)

**Andrew Davies:** Dyma'r taliadau cymorth rhanbarthol dewisol net (ar ôl eu haddasu gogyfer â grantiau a hawliwyd yn ôl) dros y pum mlynedd diwethaf:

| | |
|---|---|
| **1998-99** | £79.2 miliwn |
| **1999-2000** | £42.6 miliwn |
| **2000-01** | £35.7 miliwn |
| **2001-02** | £57.2 miliwn |
| **2002-03** | £67.9 miliwn |

Dylid nodi bod addasiadau seiliedig ar gyfrifydda adnoddau wedi cael eu gwneud yn 2001-02 a 2002-03.

**Gwariant Cymorth Rhanbarthol Dewisol**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wariant cymorth rhanbarthol dewisol yng Nghymru? (WAQ27536)

**Andrew Davies:** Mae gwariant cymorth rhanbarthol dewisol wedi bod yn gymorth pwysig i fuddsoddiadau cwmnïau brodorol a thramor yng Nghymru. Mae'r gwariant yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn ôl hynt prosiectau a faint sy'n manteisio ar y grant. Yr ydym bob amser yn ceisio cael y gwerth gorau am arian i'r trethdalwr drwy gynorthwyo cwmnïau sy'n buddsoddi yng Nghymru. Fwyfwy, mae'r cynllun yn canolbwyntio ar gynorthwyo buddsoddiadau sy'n dod â gwerth ychwanegol uchel a swyddi medrus.

**Cyllidebau Dynodol**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyllideb ddynodol cymorth rhanbarthol dewisol ar gyfer 2004-05? (WAQ27537)

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyllideb ddynodol grant buddsoddi'r Cynulliad ar gyfer 2004-05? (WAQ27552)

**Andrew Davies:** Cafodd y cyllidebau dynodol ar gyfer 2004-05 eu cyhoeddi fel rhan o'r gyllideb atodol a gymeradwywyd gan y Cynulliad ym mis Mawrth eleni. Cânt eu hadolygu yn ystod cylch cynllunio'r gyllideb sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.

**Y Ffordd i Faes Awyr Caerdydd**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw gynlluniau i ddynodi'r ffordd i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn gefnffordd? (WAQ27541)

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi cytuno'n ddiweddar â'r egwyddor o gyswllt cefnffordd i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd. Penderfynir ar yr union lwybr sydd i gael ei ddynodi'n gefnffordd drwy gyfeirio at adroddiad ymgynghorydd ynglyn â mynediad i'r maes awyr, a fydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan, a thrwy ymgynghori â'r awdurdodau statudol. Mae'r llwybr hwn yn cael ei gynnwys yn y rhaglen i ddynodi cefnffyrdd/dileu statws cefnffordd, sy'n cael ei chostio ar hyn o bryd.

**Cwmnïau sydd am Ehangu**

**Alun Cairns:** Pa ganllawiau sydd ynghylch cymorth rhanbarthol dewisol i gwmnïau sydd am ehangu? (WAQ27542)

**Andrew Davies:** Mae'r canllawiau cyffredinol i gwmnïau am y cynllun cymorth rhanbarthol dewisol i'w cael yn y llyfryn 'Cymorth Rhanbarthol Dewisol', sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru http://www.cymru.gov.uk/subitradeindustry/content/grantsforbusiness/assistance-w.htm.

Mae yna hefyd ganllawiau gweithredol a gynlluniwyd yn benodol at ddefnydd staff sy'n gweinyddu'r cynllun. Yr un yw'r canllawiau hyn ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Adran Masnach a Diwydiant a Gweithrediaeth yr Alban.

**Llinell Gyllideb Cymorth Rhanbarthol Dewisol**

**Alun Cairns:** Sut y mae'r Gweinidog yn amcangyfrif llinell gyllideb cymorth rhanbarthol dewisol? (WAQ27543)

**Andrew Davies:** Yr wyf yn ystyried amcangyfrifon gwariant ar draws fy mhortffolio, gan gynnwys cymorth rhanbarthol dewisol, ar sail ymrwymiadau presennol, rhagolygon ar gyfer y dyfodol a blaenoriaethau.

**Gwasanaethau a Seilwaith y Rheilffyrdd**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gyllideb ddynodol ar gyfer 2004-05 i gynnal gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru? (WAQ27547)

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wariant i gynnal seilwaith y rheilffyrdd ar gyfer pob blwyddyn dros y pum mlynedd diwethaf? (WAQ27548)

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gyllideb ddynodol ar gyfer 2004-05 i gynnal seilwaith y rheilffyrdd? (WAQ27549)

**Andrew Davies:** Er mis Mai 2000, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu cyllid ar gyfer gwasanaethau rheilffordd ychwanegol rhwng y gogledd a'r de yng Nghymru. Bydd faint o arian fydd ar gael a manylion y gwasanaethau y darperir cymorth tuag atynt yn 2004-05 yn destun trafod gyda'r ymgeisydd llwyddiannus am fasnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau.

Mae cyllid ar gael i'w wario ar seilwaith y rheilffyrdd yng Nghymru ar gyfer y blynyddoedd ariannol canlynol:

| | |
|---|---:|
| 1998-99 | 0 |
| 1999-2000 | 0 |
| 2000-01 | 0 |
| 2001-02 | £0.827 miliwn |

| | |
|---|---|
| 2002-03 | £2.259 miliwn |
| 2003-04 | £6.3 miliwn (wedi'i gynllunio) |
| 2004-05 | £40.0 miliwn (dynodol) |

### Polisi Gwario Cymorth Rhanbarthol Dewisol

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi gwario cymorth rhanbarthol dewisol y Cynulliad? (WAQ27550)

**Andrew Davies:** Fy mholisi o ran gwario cymorth rhanbarthol dewisol yw cael y gwerth gorau am arian i'r trethdalwr drwy gynorthwyo cwmnïau sy'n buddsoddi yng Nghymru. Fwyfwy, mae'r cynllun yn canolbwyntio ar gynorthwyo buddsoddiadau sy'n dod â gwerth ychwanegol uchel a swyddi medrus.

### Bwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Fwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru? (WAQ27551)

**Andrew Davies:** Corff cynghori a sefydlwyd o dan adran 13 Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 yw Bwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru, ac mae'n fy nghynghori ynglyn â phob cais mawr am grant cymorth rhanbarthol dewisol.

Mae'r bwrdd yn cwrdd unwaith y mis fel arfer i roi cyngor ynglyn â cheisiadau am gymorth rhanbarthol dewisol o fwy na £350,000 ond fi sy'n gwneud y penderfyniad terfynol. Dirprwywyd penderfyniadau ar geisiadau am symiau llai i'r swyddogion. Yn ystod 2002-03, cyfarfu'r bwrdd 14 o weithiau gan roi cyngor ynghylch 60 o geisiadau am grant. Mae'r bwrdd yn cynnwys pobl fusnes o amryw o gefndiroedd, ac yr wyf yn gwerthfawrogi eu cyngor a'u harbenigedd yn fawr.

### Grantiau Buddsoddi'r Cynulliad

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar grantiau buddsoddi'r Cynulliad? (WAQ27553)

**Andrew Davies:** Cyflwynwyd grant buddsoddi'r Cynulliad ym mis Ebrill 2002 i gynnig cymorth o hyd at £50,000 i gwmnïau bach a chanolig eu maint gyda chyn lleied â phosibl o fiwrocratiaeth. Mae'r cynllun wedi bod yn boblogiadd gyda busnesau brodorol ac, yn ei flwyddyn weithredol gyntaf, gwnaed 380 o gynigion gwerth dros £12 miliwn i gyd. Mae'r buddsoddiad cyfalaf cysylltiol oddeutu £32 miliwn a dylai'r prosiectau helpu i greu dros 650 o swyddi newydd a chynnal dros 1,500.

### Cefnffordd yr A495 yn Llanbedr Dyffryn Clwyd

**Brynle Williams:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gyflwyno mesurau arafu traffig ar gefnffordd yr A495 yn Llanbedr Dyffryn Clwyd? (WAQ27554)

**Andrew Davies:** Mae fy swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn ymchwilio i gyflwyno pecyn o fesurau rheoli traffig er mwyn arafu traffig yn Llanbedr Dyffryn Clwyd.

### Cyflogaeth a Swyddi Cyflogedig

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ffigurau gwrthgyferbyniol ar gyfer y newid diweddaraf mewn cyflogaeth a swyddi cyflogedig? (WAQ27563)

**Andrew Davies:** Amcangyfrifir y gyflogaeth lawn yng Nghymru gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol gan ddefnyddio yr Arolwg Gweithlu Llafur, sef arolwg aelwydydd. Yn ogystal, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi amcangyfrifon o'r swyddi cyflogedig yng Nghymru ar sail arolygon cyflogwyr tymor byr.

Mae amcangyfrif cyflogaeth diweddaraf yr Arolwg Gweithlu Llafur yn cyfeirio at y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Mai 2003 ac mae'n dangos cynnydd o 82,000 yn nifer y bobl a oedd yn gyflogedig o'i gymharu â'r un cyfnod y flwyddyn gynt. Mae'r amcangyfrif diweddaraf a luniwyd o arolygon cyflogwyr tymor byr yng Nghymru yn cyfeirio at fis Mawrth 2003, ac mae'n dangos gostyngiad o 2,000 o swyddi er mis Mawrth 2002.

Mae nifer fawr o wahaniaethau yng nghwmpas a diffiniad yr Arolwg Gweithlu Llafur o gyflogaeth a swyddi cyflogedig yr arolygon cyflogwyr tymor byr. Y mwyaf amlwg yw nad yw'r amcangyfrif o swyddi cyflogedig yn cynnwys pobl hunangyflogedig. Mae'r Swyddfa Ystadegau Genedlaethol hefyd yn cyhoeddi amcangyfrif o'r swyddi yn y gweithlu sifil yng Nghymru, sy'n cynnwys swyddi hunangyflogedig. Dengys amcangyfrif mis Mawrth 2003 o swyddi yn y gweithlu sifil gynnydd o 32,000 o'i gymharu â'r flwyddyn gynt.

Dros amser, mae'r amcangyfrifon o ran swyddi yn y gweithlu sifil ac amcangyfrifon cyflogaeth yr Arolwg Gweithlu Llafur yn tueddu i ddilyn yr un gogwydd. Fodd bynnag, mae amrywiadau samplu yn gallu effeithio ar y naill ffynhonnell a'r llall ac, yn y tymor byr, mae'r darlun yn gallu bod yn bur wahanol. Ar adegau felly yr Arolwg Gweithlu Llafur, gan mai dyna'r ffynhonnell fwyaf cynhwysfawr, sy'n rhoi'r amcangyfrif gorau o'r holl gyflogaeth yng Nghymru.

### Cwymp yn Nifer y Swyddi Gweithwyr Cyflogedig

**Elin Jones:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wrthdroi'r cwymp a welwyd yn nifer y swyddi gweithwyr cyflogedig dros y ddwy flynedd diwethaf? (WAQ27564)

**Andrew Davies:** Dros y ddwy flynedd diwethaf, tra bo nifer y swyddi gweithwyr cyflogedig wedi gostwng 12,000 yn ôl yr arolygon cyflogwyr, mae amcangyfrif yr Arolwg Gweithlu Llafur o weithwyr cyflogedig wedi cynyddu 74,000. Cyfeiriaf chi at fy ateb i WAQ27563 uchod sy'n ymdrin â gwybodaeth am swyddi cyflogedig a geir o arolygon cyflogwyr tymor byr ac ag amcanyfrfion cyflogaeth yr Arolwg Gweithlu Llafur. Fel a nodais yn yr ateb hwnnw, yr Arolwg Gweithlu Llafur sy'n rhoi'r amcangyfrif gorau o'r holl gyflogaeth yng Nghymru.

### Cyflogaeth Sector Preifat

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y lleihad mewn cyflogaeth sector preifat a nodir yn adroddiad y Royal Bank of Scotland ar fynegrif Cymru ar gyfer rheolwyr sy'n prynu? (WAQ27565) [W]

**Andrew Davies:** Yr oedd yr adroddiad PMI diweddaraf ar gyfer Cymru yn nodi bod y mynegai cyflogaeth fymryn yn is na'r lefel 'dim newid' ar 49.8 (50 yw'r rhif sy'n dynodi dim newid). Mynegai cyflogaeth Cymru oedd yr uchaf o blith holl ranbarthau Prydain, ac yr oedd gryn dipyn yn uwch na'r mynegai ar gyfer y DU gyfan (47.7). Yr oedd cwmnïau'r panel yn adrodd eu bod yn dechrau cyflogi gweithwyr mewn ymateb i gynnydd mewn gweithgarwch busnes (mynegai gweithgarwch busnes Cymru oedd yr uchaf o blith holl ranbarthau'r DU).

### Tollau Newydd ar y Ffyrdd

**Alun Cairns:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gyflwyno tollau newydd ar y ffyrdd yng Nghymru? (WAQ27575)

**Andrew Davies:** Nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i gyflwyno unrhyw dollau newydd ar y ffyrdd yng Nghymru.

**Cynllun Grantiau Adran 4 Bwrdd Croeso Cymru**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw gynlluniau i ddiwygio grantiau adran 4 Bwrdd Croeso Cymru? (WAQ27577)

**Andrew Davies:** Mae cynllun grantiau adran 4 Bwrdd Croeso Cymru wedi cael ei adolygu'n ddiweddar fel rhan o adolygiad pum mlynedd Bwrdd Croeso Cymru. Cafodd y cynllun ei ddiwygio yng ngoleuni argymhellion yr adolygiad. Mae copïau o'r adolygiad pum mlynedd wedi cael eu rhoi yn y Llyfrgell.

**Ardal Amcan 1 ac Ardaloedd Eraill (Swyddi a Grëwyd)**

**Alun Cairns:** Sut mae'r Gweinidog yn egluro bod swyddi'n cael eu creu yn gyflymach yn yr ardaloedd nad ydynt yn rhan o ddalgylch Amcan 1 o'u cymharu ag ardal Amcan 1? (WAQ27580)

**Alun Cairns:** Pa ddadansoddiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud i leoliad y swyddi sydd wedi cael eu creu yn yr economi dros y pedair blynedd diwethaf? (WAQ27581)

**Andrew Davies:** Rhoddir y newid mewn cyflogaeth yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ac yn nwyrain Cymru rhwng 1999 a'r 12 mis diwethaf yn y tabl. Bu'r cynnydd o ran canran yn uwch yn y naill ardal a'r llall er 1999 na thrwy'r DU gyfan. Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yw annog lledaenu ffyniant ar draws pob rhan o Gymru.

**Cyfanswm Cyflogaeth [1]**

| | 1999[2] | Blwyddyn hyd at Fai 2003 | Newid | |
|---|---|---|---|---|
| | 000oedd | 000oedd | 000oedd | Y cant |
| Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 749 | 777 | 28 | 3.8 |
| Dwyrain Cymru | 493 | 532 | 39 | 8.0 |
| Cymru | 1,242 | 1,310 | 68 | 5.5 |
| Y DU | 27,036 | 27,798 | 762 | 2.8 |

Ffynhonnell: Yr Arolwg Gweithlu Llafur

1. Ar wahân i ffigurau'r DU, nid yw'r data wedi cael ei addasu i adlewyrchu cyfrifiad 2001.
2. Mawrth 1999 hyd at Chwefror 2000.

**Cyllid Cymru (Adolygu)**

**Alun Cairns:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog neu Awdurdod Datblygu Cymru i adolygu Cyllid Cymru? (WAQ27582)

**Andrew Davies:** Fel y nododd prif weithredwr Awdurdod Datblygu Cymru yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, mae'r asiantaeth wedi dechrau ar adolygiad o Cyllid Cymru. Cafodd hyn ei wneud am fod hynny'n amserol a synhwyrol o ystyried bod Cyllid Cymru wedi bod yn gweithredu ers mwy na dwy flynedd. Mater i fwrdd yr Awdurdod Datblygu yw manylion yr adolygiad.

**Cyllid Cymru (Datganiad)**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Gyllid Cymru? (WAQ27583)

**Andrew Davies:** Sefydlwyd Cyllid Cymru yn 2000 fel is-gwmni a oedd yn eiddo yn llwyr i Awdurdod Datblygu Cymru, er mwyn galluogi busnesau bach a chanolig eu maint i gael gafael ar gyllid. Mae Cyllid Cymru yn cynnal nifer o gynlluniau gwahanol sydd wedi'u bwriadu i ateb amrywiaeth eang o anghenion busnes ac mae ei gyllid yn deillio oddi wrth amryw o bartneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

## Cwpan Ryder (Manteision Economaidd)

**Alun Cairns:** Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu estyn manteision economaidd cynnal Cwpan Ryder i Gymru gyfan? (WAQ27584)

**Andrew Davies:** Mae manteision cynnal Cwpan Ryder yng Nghymru eisoes yn cael ei lledaenu ar draws Cymru. Er enghraifft, denodd cystadleuaeth agored hŷn Cwpan Ryder Cymru yn Harlech ym mis Gorffennaf gystadleuwyr ac ymwelwyr o bob rhan o'r DU a thu hwnt, a bu'n hwb sylweddol i'r economi leol. Mae Cwpan Ryder Cymru 2010 Cyf a Bwrdd Croeso Cymru hefyd yn defnyddio Cwpan Ryder i godi proffil rhyngwladol Cymru fel cyrchfan twristiaeth golff er mwyn denu ymwelwyr i bob rhan o Gymru.

## Cwpan Ryder (Seilwaith y Ffyrdd)

**Alun Cairns:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella seilwaith y ffyrdd o amgylch Casnewydd er mwyn paratoi ar gyfer Cwpan Ryder? (WAQ27585)

**Andrew Davies:** Cafodd cwmni adfywio trefol, Casnewydd Diderfyn, ei ffurfio'n ddiweddar i sicrhau bod y ddinas yn perfformio'n well yn economaidd. Mae Casnewydd Diderfyn yn datblygu strategaethau a mesurau i helpu i adfywio'r ddinas a hybu adfywio economaidd ehangach yn yr ardal gyfagos. Fel rhan o hyn, mae wedi comisiynu astudiaeth drafnidiaeth o Gasnewydd a'r cyffiniau.

Mae'r astudiaeth drafnidiaeth yn cynnwys paratoi strategaeth rheoli digwyddiadau a fydd yn cynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol sydd i'w chynnal yno y flwyddyn nesaf a Chwpan Ryder yn 2010. Bydd hyn yn sicrhau bod gwelliannau i'r seilwaith trafnidiaeth yn cael eu datblygu mewn ffordd a fydd yn dod â manteision economaidd tymor hir i Gasnewydd. Mae swyddogion o gyfarwyddiaeth trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn helpu'r cwmni adfywio trefol i reoli'r comisiwn.

## Targedau ar gyfer Cymru

**Alun Cairns:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'r Awdurdod Twristiaeth Prydeinig o ran gosod targedau ar gyfer Cymru? (WAQ27608)

**Andrew Davies:** Mae targedau VisitBritain wedi cael eu rhestru yn ei gytundeb cyllido gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac maent yn cynnwys targed i annog twristiaeth y tu allan i Lundain. Ymgynghorir â Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch y cytundeb cyllido. Byddaf yn trafod gweithgareddau VisitBritain yn hyrwyddo Cymru dramor, gan gynnwys gosod targedau ar gyfer ymwelwyr, y tro nesaf y byddaf yn cwrdd â Gweinidog newydd y DU dros Chwaraeon a Thwristiaeth, Richard Caborn, ac uwch reolwyr VisitBritain. Yn yr hydref y bydd hynny.

## Ffyrdd Newydd a Chynnal a Chadw Ffyrdd

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y gwariant ar ffyrdd newydd ac ar gynnal a chadw ffyrdd yng Nghymru ym mhob blwyddyn dros y 15 mlynedd diwethaf? (WAQ27616)

**Andrew Davies:** Mae manylion gwariant y Llywodraeth ganolog a gwariant yr awdurdodau lleol ar ffyrdd newydd ac ar gynnal a chadw ffyrdd dros y 15 mlynedd diwethaf wedi eu nodi yn y bennod sy'n dwyn y teitl 'Cyllid a'r Economi' yn y cyhoeddiad blynyddol, 'Ystadegau Trafnidiaeth Cymru', y mae copïau ohono wedi cael eu rhoi yn y Llyfrgell. Mae rhifynnau 2001 a 2002 o'r cyhoeddiad hefyd ar gael ar safle 'Ystadegau Cymru' ar y fewnrwyd.

## Cwpan Ryder (Manteision Economaidd)

**Alun Cairns:** Pa dargedau y mae'r Gweinidog wedi'u gosod i fesur manteision economaidd Cwpan Ryder? (WAQ27623)

**Andrew Davies:** Mae'r Awdurdod Datblygu, Cwpan Ryder Cymru 2010 Cyf a phartneriaid eraill yn datblygu strategaeth i fanteisio ar gysylltiad Cymru â brand Cwpan Ryder er mwyn codi proffil rhyngwladol Cymru a chynyddu'r manteision economaidd i Gymru i'r eithaf. Rhagwelaf y bydd targedau yn cael eu gosod yn y cyd-destun hwn cyn gynted ag y bydd llinellau sylfaen wedi cael eu sefydlu.

### System Rheoli Cyrchfannau Bwrdd Croeso Cymru

**Alun Cairns:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd yn sgîl methiant system farchnata uniongyrchol Bwrdd Croeso Cymru i gyrraedd ei thargedau gwreiddiol? (WAQ27625)

**Andrew Davies:** Trafodwyd perfformiad system rheoli cyrchfannau Bwrdd Croeso Cymru, 'VisitWales', yn helaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar 17 Gorffennaf. Yn y cyfarfod hwnnw, cydnabu'r bwrdd croeso fod angen gwella agweddau ar y system cyn y gellid cyrraedd y targedau i gyd. Dim ond ers rhyw 12 mis y bu'r system yn gwbl weithredol ac, fel llawer o ddatblygiadau newydd, gall fod problemau yn aml na sylweddolir eu bod yn bodoli nes bydd y system wedi ei sefydlu a'i fod yn weithredol. Mae'r bwrdd croeso yn parhau i ymwneud â gwaith datblygu ac yn ystyried ailddatblygu a chaboli'r wefan, mewn partneriaeth â'r diwydiant, i'w gwneud yn haws i ymwelwyr a'r diwydiant croeso yng Nghymru ei defnyddio.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Cyrsiau'r Cyngor Dyfarniadau mewn Gofal ac Addysg Plant (CACHE)

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau cost y ffioedd blynyddol ar gyfer y sawl sy'n dilyn cyrsiau CACHE (lefel 3) yn ystod blwyddyn academaidd 2003-04 a phaham bod y trefniadau ar gyfer talu'r costau fel a welwyd yn 2002-03 yn cael eu diddymu? (WAQ27484)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Mae'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa wedi fy hysbysu nad yw'n casglu gwybodaeth am ffioedd cyrsiau blynyddol ac ni allaf felly roi ffigur ichi am gost y ffioedd ar gyrsiau CACHE. Cyhyd ag y bo'r dysgwr yn 19 oed neu'n hyn, gall colegau addysg bellach, fel cyrff annibynnol, bennu pa ffioedd bynnag y maent yn eu hystyried yn briodol am gwrs astudio. Fodd bynnag, os yw'r dysgwr rhwng 16 a 18 oed, ni ddylai'r coleg godi ffi.

Mae'r cymhwyster galwedigaethol cenedlaethol lefel 3, 'gofal ac addysg y blynyddoedd cynnar', a ddyfernir gan CACHE, yn dal wedi ei restru fel cwrs sydd wedi ei gymeradwyo ar gyfer 2003-04 yn adran 96 Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, ac mae'n gymwys felly i gael cyllid o dan drefniadau'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa i gyllido sefydliadau addysg bellach.

### Cyrsiau CACHE drwy gyfrwng y Gymraeg

**Owen John Thomas:** Ym mha sefydliadau y cynigir cyrsiau CACHE drwy gyfrwng y Gymraeg i hyfforddi'r sawl sydd, neu a fydd, yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg? (WAQ27485)

**Jane Davidson:** Mae'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa wedi fy hysbysu bod Coleg Sir Gâr, Coleg Ceredigion, Coleg Menai, Coleg Llandrillo, Coleg Morgannwg, Coleg Iâl Wrecsam a Choleg y Barri yn cyflwyno cyrsiau CACHE naill ai'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oes sicrwydd y bydd y myfyrwyr hynny sy'n ymgymryd â'r cyrsiau arbennig hyn yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn dilyn hynny.

### Adroddiadau Cyllidebol Adran 52

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr adroddiadau cyllidebol adran 52 diweddaraf ar gyfer sir Ddinbych? (WAQ27491)

**Jane Davidson:** Fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 9 Gorffennaf, mae awdurdodau Cymru wedi cynyddu cyllidebau ysgolion unigol am 2003-04 10.1 y cant a'r cyllidebau addysg drwyddynt draw 9.7 y cant. Y ffigurau ar gyfer sir Ddinbych yw 13.3 y cant i'r naill a 13.1 y cant i'r llall. Mae cyfanswm y gwariant y cyllidebir ar ei gyfer fesul disgybl yng Nghymru yn £3,499 ar gyfartaledd, ac £3,242 yw'r ffigur ar gyfer sir Ddinbych. Y ffigur cyllido dirprwyedig y cyllidebir ar ei gyfer fesul disgybl cynradd yw £2,533 yng Nghymru o'i gymharu â £2,340 yn sir Ddinbych. Mae'r ffigur cyllido dirprwyedig y cyllidebir ar ei gyfer fesul disgybl uwchradd yn £3,237 drwy Gymru gyfan o'i gymharu â £2,961 yn sir Ddinbych.

## Cymorth Grant Arbennig

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl gymorth grant arbennig a dderbyniodd awdurdod addysg sir Ddinbych dros y tair blynedd diwethaf? (WAQ27492)

**Jane Davidson:** Mae'r wybodaeth fel a ganlyn:

**Grantiau Arbennig 2001**

| | | |
|---|---|---|
| Rhif 4 | cyllid refeniw ychwanegol i wasanaethau addysg | £633,000 |
| Rhif 8 | grant cymorth i ysgolion | £471,500 |
| Rhif 14 | cyllid ychwanegol i ysgolion: Beichiau Biwrocrataidd | £1,000 yr ysgol |

**Grantiau Arbennig 2002**

| | | |
|---|---|---|
| Rhif 23 | cyllid refeniw ychwanegol i wasanaethau addysg awdurdodau addysg lleol | £831,657 |
| Rhif 4 | cyflogau trothwy athrawon, gogyfer â diffyg y cytunwyd arno | £209,055 |
| Rhif 6 | ffyrdd arloesol o ddarparu addysg mewn amgylchiadau gwledig/ cymorth i awdurdodau lleol yn ymwneud â data am ddisgyblion | £119,508 |
| Rhif 8 | cyflogau trothwy athrawon (£18.7 miliwn) | £601,929 |
| Rhif 12 | cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau AALl (gwella safonau mewn ysgolion) | £178,090 |
| Rhif 19 | diffyg yng nghyflogau trothwy athrawon | £257,809 |

Yn ogystal â £585,000 i gefnogi darpariaeth y blynyddoedd cynnar

**Grantiau Arbennig 2003**

| | | |
|---|---|---|
| Rhif 2 | cymorth gweinyddol mewn ysgolion | £100,000 |
| Rhif 12 | cyllid refeniw ychwanegol | £1,085,986 |
| Rhif 13 | ffyrdd arloesol o ddarparu addysg mewn amgylchiadau gwledig/ cymorth i awdurdodau lleol yn ymwneud â data am ddisgyblion | £178,090 |

Yn ogystal â £834,000 i gefnogi darpariaeth y blynyddoedd cynnar

Mae'r adroddiadau am grantiau i'w gweld ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol o dan 'dogfennau a osodwyd'.

## Plant yn Gadael Ysgol heb Gymwysterau

**Ann Jones:** Faint o blant sydd wedi gadael yr ysgol heb gymwysterau ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf, ym mhob awdurdod addysg lleol yng Nghymru? (WAQ27493)

**Jane Davidson:** Dim ond am ddisgyblion 15 oed sy'n gadael addysg amser llawn heb gymwysterau cydnabyddedig y mae data ar gael yn ganolog. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y tabl isod. Mae data yn ôl rhyw ac AALl ar gael ar
http://www.cymru.gov.uk/keypubstatisticsforwalesheadline/index.htm.

**Disgyblion 15 oed sy'n gadael addysg amser llawn heb gymwysterau cydnabyddedig**

| | 2000 | | | 2001 | | | 2002 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Awdurdod addysg lleol (a) | Nifer y disg. | Nifer yn gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnab-yddedig | Canran y garfan yn gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnab-yddedig | Nifer y disg. | Nifer yn gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnab-yddedig | Canran y garfan yn gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnab-yddedig | Nifer y disg. | Nifer yn gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnab-yddedig | Canran y garfan yn gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnab-yddedig |
| Ynys Môn | 811 | 15 | 1.8 | 820 | 10 | 1.2 | 779 | 7 | 0.9 |
| Gwynedd | 1,283 | 7 | 0.5 | 1,252 | 11 | 0.9 | 1,282 | 5 | 0.4 |
| Conwy | 1,167 | 22 | 1.9 | 1,194 | 37 | 3.1 | 1,237 | 32 | 2.6 |
| Sir Ddinbych | 1,123 | 27 | 2.4 | 1,196 | 18 | 1.5 | 1,202 | 24 | 2.0 |
| Sir y Fflint | 1,596 | 33 | 2.1 | 1,786 | 22 | 1.2 | 1,737 | 17 | 1.0 |
| Wrecsam | 1,315 | 41 | 3.1 | 1,412 | 62 | 4.4 | 1,370 | 38 | 2.8 |
| Powys | 1,440 | 55 | 3.8 | 1,394 | 19 | 1.4 | 1,393 | 33 | 2.4 |
| Ceredigion | 782 | 7 | 0.9 | 838 | 5 | 0.6 | 799 | 0 | 0.0 |
| Sir Benfro | 1,334 | 26 | 1.9 | 1,351 | 37 | 2.7 | 1,305 | 33 | 2.5 |
| Sir Gaerfyrddin | 2,076 | 43 | 2.1 | 2,166 | 47 | 2.2 | 2,115 | 58 | 2.7 |
| Abertawe | 2,741 | 123 | 4.5 | 2,895 | 100 | 3.5 | 2,801 | 123 | 4.4 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1,769 | 30 | 1.7 | 1,754 | 44 | 2.5 | 1,821 | 36 | 2.0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1,602 | 74 | 4.6 | 1,615 | 41 | 2.5 | 1,691 | 44 | 2.6 |
| Bro Morgannwg | 1,347 | 25 | 1.9 | 1,415 | 48 | 3.4 | 1,484 | 34 | 2.3 |
| Rhondda Cynon Taf | 3,142 | 126 | 4.0 | 3,306 | 116 | 3.5 | 3,232 | 128 | 4.0 |
| Merthyr Tudful | 809 | 84 | 10.4 | 871 | 66 | 7.6 | 828 | 48 | 5.8 |
| Caerffili | 2,244 | 93 | 4.1 | 2,382 | 82 | 3.4 | 2,343 | 79 | 3.4 |
| Blaenau Gwent | 778 | 38 | 4.9 | 853 | 15 | 1.8 | 808 | 22 | 2.7 |
| Tor-faen | 1,283 | 14 | 1.1 | 1,399 | 36 | 2.6 | 1,379 | 35 | 2.5 |
| Sir Fynwy | 842 | 12 | 1.4 | 880 | 12 | 1.4 | 897 | 19 | 2.1 |
| Casnewydd | 1,577 | 91 | 5.8 | 1,646 | 77 | 4.7 | 1,746 | 89 | 5.1 |
| Caerdydd | 3,598 | 238 | 6.6 | 3,659 | 213 | 5.8 | 3,816 | 206 | 5.4 |
| Ysgolion annibynnol | 804 | 2 | 0.2 | 910 | 4 | 0.4 | 865 | 3 | 0.3 |
| **Cymru** | **35,463** | **1,226** | **3.5** | **36,994** | **1,122** | **3.0** | **36,930** | **1,113** | **3.0** |

Ffynhonnell: Arolwg ysgolion blynyddol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(a) Dim ond ysgolion uwchradd a gynhelir ac ysgolion arbennig y mae ffigurau'r awdurdodau addysg lleol yn eu cynnwys. Mae ffigurau Cymru hefyd yn cynnwys ysgolion annibynnol.

### Ysgolion Uwchradd

**Leighton Andrews:** Faint o ysgolion uwchradd yn Rhondda Cynon Taf sydd â llai na 1,000 o ddisgyblion? (WAQ27512)

**Jane Davidson:** O'r 19 ysgol uwchradd a gynhelir yn Rhondda Cynon Taf, mae gan 10 lai na 1,000 o ddisgyblion.

### Dysgu ac Addysgu Cymru

**Leighton Andrews:** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl i Dysgu ac Addysgu Cymru adrodd i ysgolion am werth yr uned gredyd sydd i'w rhoi i gyrsiau Safon Uwch a Safon Uwch Atodol? (WAQ27514)

**Leighton Andrews:** Ar ba ganran y bydd y lwfans amddifadedd cymdeithasol yn cael ei bennu gan ELWa yn ei bwysoliadau cost ar gyfer cyfrif incwm ysgolion ar ôl 16 oed? (WAQ27515)

**Leighton Andrews:** A yw ELWa wedi adrodd i adran y Gweinidog am ganlyniad yr astudiaeth beilot yn Rhondda Cynon Taf o system gyllido genedlaethol ELWa ar gyfer addysg i rai dros 16 oed? (WAQ27516)

**Leighton Andrews:** Beth oedd canlyniad astudiaeth beilot Rhondda Cynon Taf o system gyllido genedlaethol ELWa ar gyfer addysg i rai dros 16 oed? (WAQ27517)

**Leighton Andrews:** Faint o ysgolion yn Rhondda Cynon Taf fydd yn colli refeniw o dan system gyllido genedlaethol ELWa ar gyfer addysg i rai dros 16 oed, a pha gyfrifon a wnaed mewn perthynas ag enillion neu golledion gwirioneddol fesul ysgol? (WAQ27518)

**Jane Davidson:** Mae'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa yn dal i ddatblygu ei drefniadau cynllunio a chyllido newydd yn barod i'w cyflwyno o fis Awst 2004. Fel rhan o'i ymchwil, ei brofion a'i ymgynghori anffurfiol â darparwyr, mae rhai ysgolion yn Rhondda Cynon Taf wedi darparu data ac wedi cymryd rhan mewn trafodaethau ynglŷn ag effaith opsiynau posibl. Ni fu astudiaeth beilot ac ni wnaed penderfyniadau ar hyn o bryd ynglŷn â'r dyraniadau i ysgolion a darparwyr eraill yn y dyfodol. Fodd bynnag, bydd y wybodaeth a gafodd ELWa yn gymorth i ddatblygu'r trefniadau newydd.

Bydd ELWa yn cyflwyno ei gynigion ynglyn â chynllunio a chyllido i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn ddiweddarach eleni. Bydd y trefniadau newydd yn cymryd ffactorau pwyso i ystyriaeth i adlewyrchu costau darpriaeth leol ynghyd â'r ffaith bod fframwaith o gredydau a chymwysterau dysgu yn cael ei roi ar waith yn gynyddol.

## Triwantiaeth

**David Davies:** Sawl achos o driwantiaeth a gofnodwyd yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd 2000-01, 2001-02 a 2002-03? (WAQ27519)

**Jane Davidson:** Cesglir data am y gyfran o sesiynau ysgol hanner diwrnod sy'n cael eu colli gan ddisgyblion 11 i 15 oed drwy absenoldeb heb ganiatâd. Mae'r wybodaeth hon, am 2000-01 a 2001-02, wedi'i chynnwys yn y tabl isod. Bydd y data am 2002-03 ar gael ym mis Hydref 2003. Caiff data cymharol am ysgolion cynradd ei gasglu am y tro cyntaf eleni a bydd canlyniadau 2002-03 ar gael ym mis Chwefror 2004.

**Absenoldeb heb ganiatâd o ysgolion uwchradd yng Nghymru (a)**

| Blwyddyn | Nifer y disgyblion 11 i 15 oed | Nifer y sesiynau ysgol a gollwyd oherwydd absenoldeb heb ganiatâd | Canran y sesiynau ysgol a gollwyd oherwydd absenoldeb heb ganiatâd | Nifer y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd fesul disgybl ar gyfartaledd |
|---|---|---|---|---|
| 2000-01 | 191,860 | 953,999 | 1.6 | 5.0 |
| 2001-02 | 192,864 | 1,037,364 | 1.7 | 5.4 |

Ffynhonnell: Cofnod Presenoldeb Disgyblion, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(a) Gan gynnwys ysgolion uwchradd a gynhelir ac ysgolion arbennig, ynghyd ag ysgolion annibynnol.

## ELWa

**John Marek:** A wnaiff y Gweinidog ofyn i brif weithredwr dros dro ELWa ryddhau gwybodaeth am gymwysterau cyhoeddus uwch-staff ELWa mewn perthynas â'r swyddi sydd ganddynt? (WAQ27520

**Jane Davidson:** Na wnaf.

**Athrawon sydd wedi Colli eu Swyddi**

**Michael German:** Faint o athrawon sydd wedi gorfod colli eu swyddi, sydd wedi colli eu swyddi o'u gwirfodd, sydd wedi ymddeol yn gynnar, neu y mae eu contractau dros dro heb gael eu hadnewyddu eleni? (WAQ27526)

**Jane Davidson:** Nodir y sefyllfa gyfredol, o'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr awdurdodau addysg lleol, isod:

| | |
|---|---|
| Colli swyddi drwy orfodaeth | 46 |
| Colli swyddi o'u gwirfodd | 78 |
| Ymddeol yn gynnar | 56 |

Nid oes gennym wybodaeth am adnewyddu contractau. Gallai'r sefyllfa newid gan fod yr awdurdodau addysg lleol yn ceisio adleoli athrawon mewn nifer o achosion

**Cyrsiau Dwyieithog**

**Alun Ffred Jones:** Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu sicrhau bod cyllid digonol ar gael i golegau sy'n cynnig cyrsiau dwyieithog yn y flwyddyn 2003-04? (WAQ27555) [W]

**Jane Davidson:** Mae cyfanswm yr arian sydd ar gael i golegau wedi cynyddu 7.5 y cant yn 2003-04. Yn ogystal â'r arian sydd ar gael i sefydliadau gan y Cyngor Cenedlaethol—ELWa drwy'r fethodoleg ariannu gylchol sy'n gysylltiedig â chyflwyno rhaglenni, gwneir dyraniadau pellach gan ELWa o ran gwledigrwydd, dwyieithrwydd ac ehangu cyfranogiad. Dyrannwyd rhyw £1.9 miliwn o'r arian sydd wedi'i glustnodi yn 2003-04 i gefnogi cyflwyno darpariaeth ddwyieithog.

**Cwtogi ar Gyllid Colegau Addysg Bellach**

**Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi sicrwydd na fydd cwtogi ar gyllid colegau addysg bellach yn y Gogledd-orllewin yn y flwyddyn 2003-04—yn benodol Coleg Meirion Dwyfor a Choleg Menai? (WAQ27556) [W]

**Jane Davidson:** Ar draws pob sefydliad addysg bellach yng Nghymru cafwyd cynnydd o 7.5 y cant yng nghyfanswm y cyllid cylchol sydd ar gael yn 2003-04. Yn achos Coleg Meirion Dwyfor, cafwyd cynnydd o 3.7 y cant yn y cyllid ac, yn achos Coleg Menai, cafwyd cynnydd o 7.85 y cant. Ar gyfer y blynyddoedd i ddod, bydd y dyraniadau gan y Cyngor Cenedlaethol—ELWa yn adlewyrchu cyflwyno ei drefniadau cynllunio ac ariannu newydd sydd â phwysiadau i adlewyrchu'r anghenion am ddarpariaeth leol. Gall pob sefydliad gynhyrchu incwm o ffynonellau eraill, gan gynnwys cyllid Ewropeaidd.

**Cyrsiau mewn Ysgolion Uwchradd**

**Alun Ffred Jones:** Pa sicrwydd y gall y Gweinidog ei roi i ddisgyblion addysg ôl-16, a fydd yn dechrau ar gyrsiau ym mis Medi mewn ysgolion uwchradd y bydd parhad i'r cyrsiau o fewn yr ysgolion? (WAQ27557) [W]

**Jane Davidson:** Mae ysgolion sydd â chweched dosbarth wedi cael eu cyllidebau ysgol ar gyfer 2003-04. Mae'r rhain yn cynnwys cyllid a ddarperir gan y Cyngor Cenedlaethol—ELWa ar gyfer darpariaeth ar ôl 16 oed, a bydd awdurdodau addysg lleol wedi gwneud cynlluniau ar gyfer darpariaeth y chweched dosbarth gan gymryd i ystyriaeth y cyllidebau hynny a'r galw am y cyrsiau o du'r disgyblion.

Mae'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa yn parhau gyda'i gynlluniau i gyflwyno ei drefniadau cynllunio ac ariannu newydd o Awst 2004 ac mae'n bwriadu cyflwyno blwyddyn gychwynnol o gael dwy drefn ar waith o dan y trefniadau presennol a'r trefniadau newydd, ynghyd â mecanweithiau clustogi a lleddfu a

fydd yn sicrhau parhad ac yn sail i gyflwyno rhaglenni Safon Uwch a fydd yn dechrau ym mis Medi 2003.

### Snap Cymru

**Jonathan Morgan:** Faint o arian y mae adran y Gweinidog yn ei ddarparu i Snap Cymru? (WAQ27593)

**Jane Davidson:** Dim ar hyn o bryd, ond darparwyd grant refeniw penodol un-tro er mwyn iddo ddatblygu ei wasanaeth person a enwir yn 1997-98, yn ogystal â grant refeniw rheolaidd dros dair blynedd gogyfer â'r cyfnod 1998-2001 er mwyn iddo ddatblygu ei wasanaeth datrys anghydfodau.

Yn y flwyddyn ariannol gyfredol, darparwyd £44,555 ar gyfer y grant mudiadau plant a theulu o gyllideb yr Adran Iechyd tuag at y gost o gyflogi swyddog gwybodaeth ac ymchwil, clerc cyllid a gweinyddydd.

### Y Diwydiant Twristiaeth

**Alun Cairns:** Pa gymorth penodol y mae ELWa yn ei roi i'r diwydiant twristiaeth? (WAQ27607)

**Jane Davidson:** Mae'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa wedi llofnodi memorandwm dealltwriaeth gyda Bwrdd Croeso Cymru ac mae'n gweithio gyda'r partneriaethau twristiaeth rhanbarthol sy'n cynnig cymorth rhanbarthol parhaus i'r sector twristiaeth. Mae hyn yn cynnwys y rhaglen rhagweld yn y Canolbarth ac ymchwil i anghenion sgiliau'r sector twristiaeth yn y De-orllewin i'r dyfodol.

Drwy ei gronfa her i ddysgu, mae ELWa yn helpu Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru i ddatblygu strategaeth genedlaethol i hybu ansawdd a pherthnasedd hyfforddiant twristiaeth yng Nghymru ac i gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio arno. Mae hefyd yn cynorthwyo Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru i hybu datblygiad gwaith rheoli o fewn partneriaethau twristiaeth bach drwy ei gronfa datblygu sgiliau.

Yn ogystal, mae ELWa yn ariannu rhaglen y cynllun croeso, sy'n ceisio codi safon y gwasanaeth a gynigir i bobl sy'n ymweld â Chymru. Drwy'r cyfrifon dysgu i gwmnïau, mae ELWa yn helpu i ddatblygu sgiliau o fewn busnesau yn y sector twristiaeth sydd wedi cael grantiau buddsoddi gan y bwrdd croeso.

Mae ELWa hefyd wedi cyfrannu tuag at y strategaeth dwristiaeth i Ynys Môn, ac mae wedi cynorthwyo Coleg Llandrillo i ddatblygu rhwydwaith rhagoriaeth ar gyfer y sector hwn.

### Achosion Cyfreithiol yn erbyn Awdurdodau Addysg Lleol

**Alun Cairns:** Pa ddadansoddiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud i weld a fu cynnydd yn nifer yr achosion cyfreithiol yn erbyn awdurdodau addysg lleol? (WAQ27619) [R]

**Jane Davidson:** Nid yw'r awdurdodau addysg lleol yn rhoi gwybod i'm hadran i fel mater o drefn am achosion cyfreithiol yn eu herbyn. Nid yw felly'n bosibl asesu pa un a fu cynnydd mewn achosion o'r fath ai peidio.

### Achosion Cyfreithiol yn erbyn Awdurdodau Addysg Lleol

**Alun Cairns:** A yw'r Gweinidog wedi ystyried cymryd camau penodol i leihau nifer yr achosion cyfreithiol yn erbyn awdurdodau addysg lleol? (WAQ27620) [R]

**Jane Davidson:** Gall achosion cyfreithiol yn erbyn awdurdodau addysg lleol godi mewn amryw o sefyllfaoedd a chyd-destunau, o adolygiadau barnwrol o'r ffordd y mae awdurdod addysg lleol wedi cyflawni ei swyddogaethau addysgol i hawliadau sifil am iawndal o ganlyniad i anafiadau personol. Nid oes gennyf rôl weithredol uniongyrchol o ran achosion cyfreithiol yn ymwneud ag awdurdodau addysg

lleol gerbron y llysoedd. Cyfrifoldeb yr awdurdodau eu hunain yw trefnu eu materion fel bod cyn lleied â phosibl o gyfle i'w herio'n llwyddiannus yn gyfreithiol.

### Cyfrifoldebau Addysgol (Achosion Cyfreithiol)

**Alun Cairns:** Pa gymorth canolog sydd ar gael i ysgolion a/neu awdurdodau addysg lleol i osgoi denu achosion cyfreithiol gan rieni am iddynt beidio â chyflawni'u cyfrifoldebau addysgol? (WAQ27621) [R]

**Jane Davidson:** Y ffordd orau i AALl osgoi denu achosion cyfreithiol yw iddo gyflawni ei swyddogaethau yn briodol. Pe bai pryderon nad yw AALl yn cyflawni ei swyddogaethau hyd at safon ddigonol, byddwn yn mynd ati i weithredu drwy bartneriaeth i helpu'r awdurdod i wella.

### Awdurdodau Addysg Lleol (Cyfrifoldebau)

**Alun Cairns:** Pa bwerau sydd gan y Gweinidog i ymyrryd pan fo awdurdodau addysg lleol yn destun honiadau, drwy'r llysoedd, nad ydynt wedi bod yn cyflawni'u cyfrifoldebau? (WAQ27624) [R]

**Jane Davidson:** Nid oes gennyf bwerau ymyrryd pendol lle bo awdurdodau addysg lleol yn destun honiadau drwy'r llysoedd nad ydynt wedi bod yn cyflawni'u cyfrifoldebau.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

### Y Comisiwn Coedwigaeth

**Janet Ryder:** Pa arian sydd ar gael i'r Comisiwn Coedwigaeth a faint o'r arian hwn sy'n cael ei basio ymlaen ar ffurf grantiau i helpu perchnogion coedlannau? (WAQ27504)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Yn y flwyddyn ariannol gyfredol, mae'r Comisiwn Coedwigaeth, y mae modd ar hyn o bryd ei wahanu yn y cyd-destun ariannol oddi wrth yr Asiantaeth Rheoli Coedwigaeth, wedi cael £9.2 miliwn oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru. O'r swm hwn, mae £6.9 miliwn i'w ddefnyddio i helpu i reoli coedlannau, ac mae £3.5 miliwn ohono yn grantiau sydd i gael eu talu'n uniongyrchol i berchnogion coedlannau drwy'r cynllun grant coedlannau. Mae'r gweddill ar gael i ddarparu cymorth a chyllid arall, i goedlannau yn y sector preifat drwy Cydcoed Amcan 1, a chytundebau partneriaeth megis Coed Cymru a Chyswllt Ffermio.

### Fforwm y Coetiroedd

**Janet Ryder:** Beth yw enwau a chylchoedd gorchwyl aelodau fforwm y coetiroedd, a sefydlwyd i gynghori Comisiwn Coedwigaeth Cymru? (WAQ27505)

**Carwyn Jones:** Dyma yw diben a maes gwaith fforwm y coetiroedd:
- rhannu a chyfnewid cynigion i roi 'Coetiroedd i Gymru', strategaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar goed a choetiroedd, ar waith;
- datblygu dangosyddion perfformiad y gellir mesur llwyddiannau yn eu herbyn; a
- mesur, monitro ac adolygu cynnydd o ran rhoi'r strategaeth ar waith ac adrodd yn ôl i'r Cynulliad.

Bydd y fforwm yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn. Fi sy'n cadeirio'r fforwm, a gwneir gwaith yr ysgrifenyddiaeth gan y Comisiwn Coedwigaeth. Dyma enwau aelodau'r fforwm:

| Enw | Yn cynrychioli |
|---|---|
| Nigel Ajax Lewis | Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Morgannwg |
| Norma Barry | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Tom Bourne | Awdurdod Datblygu Cymru |

| | |
|---|---|
| Rosie Carmichael | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Glynn Cook | Cymdeithas Brydeinig Saethu a Chadwraeth |
| Huw Denman | Cymdeithas Gymunedol Brechfa, Abergolech a Llanfihangel Rhos y Corn |
| Mike Dunn | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Bridget Emmett | Y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg, Prifysgol Cymru, Bangor |
| John Everard | The Continuous Cover Forestry Group |
| Bob Farmer | Y Comisiwn Coedwigaeth |
| Sue Gittins | Cymdeithas y Cerddwyr |
| John Good | Pwyllgor Ymgynghorol y Comisiwn Coedwigaeth dros Gymru |
| David Jenkins | Coed Cymru |
| Linda Jones | Bwrdd Croeso Cymru |
| Jerry Langford | Coed Cadw |
| Harry Lloyd | Cymdeithas Cynnyrch Coedwigoedd y DU |
| John Lloyd Jones | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Ben Maxted | Tir Coed |
| Wendy Merrett | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| David Morris | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Rhian Nowell-Phillips | Undeb Amaethwyr Cymru |
| Tony Prater | Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar |
| Colin Price | Ysgol Amaethyddiaeth a Gwyddorau Coedwigaeth, Prifysgol Cymru, Bangor |
| Paul Raymond Barker | Sefydliad Brenhinol y Syrfëwyr Siartredig |
| Lindsay Roberts | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Ken Shaw | Groundwork Cymru |
| Ian Sheffner | The Forestry Contracting Association |
| John Taylor | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Celia Thomas | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro |
| Malcolm Thomas | Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru |
| Trefor Thompson | Y Gymdeithas Goedwigaeth Frenhinol |
| Phil Tidey | Cymdeithas y Coetiroedd Bach |
| Trevor Trevor | Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad |
| Richard Turner | CADW |
| Rod Waterfield | Cymdeithas y Coetiroedd Bach |
| Ann Watkin | Awdurdod Datblygu Cymru |
| Judith Webb | Y Gymdeithas Coedwigaeth a Choed |
| Jon Westlake | Y Comisiwn Coedwigaeth |
| Hugh Wheeldon | Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig |
| Peter Wilson | Cyngor Datblygu'r Diwydiannau Coedwigaeth |
| James Woodcock | Fforwm Coed Cymru |
| Deb Wozencraft | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig |
| Nick Wynne | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |

## Grantiau i Berchnogion Coedlannau

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi tabl yn dangos canran y cynnydd mewn grantiau i berchnogion coedlannau, fesul blwyddyn? (WAQ27506)

**Carwyn Jones:** A chymryd blwyddyn ariannol 1996-97 fel blwyddyn sail, dyma'r grantiau, yn ôl canrannau, a dalwyd yn uniongyrchol i berchnogion coedlannau gan y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru:

| **1996-97** | **1997-98** | **1998-99** | **1999-2000** | **2000-01** | **2001-02** | **2002-03** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £1.6 miliwn | £2.3 miliwn | £3.4 miliwn | £3.7 miliwn | £2.7 miliwn | £1.9 miliwn | £2.3 miliwn |
| 100 y cant | 144 y cant | 212 y cant | 231 y cant | 168 y cant | 119 y cant | 144 y cant |

Effeithiwyd ar flynyddoedd 2000-01 a 2001-02 gan glwy'r traed a'r genau.

### Datblygu Cynaliadwy

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae datblygu cynaliadwy'n rhan o'i bolisïau? (WAQ27594)

**Carwyn Jones:** Mae ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu cynaliadwy yn dylanwadu ar y broses o lunio polisi ym mhob un o'i phortffolios ac mae'r cynllun datblygu cynaliadwy presennol wedi dechrau gosod y seiliau ar gyfer newid gwirioneddol. Bydd ein dyletswydd gyfreithiol i adolygu'r cynllun yn wahoddiad i'n partneiriad leisio eu barn am sut mae mynd ati orau i ddal i sicrhau'r newidiadau gofynnol yn y ffordd y mae Cymru yn byw ac yn gweithio.

### Egwyddorion Cynllunio

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw gynlluniau sydd ganddo i adolygu egwyddorion cynllunio yn ei adran? (WAQ27595)

**Carwyn Jones:** Bwriad y cynigion a nodwyd yn 'Cynllunio: Cyflawni dros Gymru' yw sicrhau ein bod yn adeiladu ar yr arferion gorau ym maes cynllunio ac yn codi safonau ar draws Cymru. Bydd gofyn i Lywodraeth y Cynulliad gydweithio â'r rhai sy'n bennaf cyfrifol am roi'r system gynllunio ar waith i sicrhau bod y system yn:

- agored, teg a thryloyw;
- ysgogi ffydd y cyhoedd a busnesau;
- sicrhau gwell ansawdd ac yn gweithio'n gyflymach;
- integreiddio â chynlluniau, prosesau a threfniadau gweithredu eraill; ac
- yn cyd-fynd ag amcanion cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r rhaglen yn un uchelgeisiol. Bydd yn her i'w gwireddu, a bydd yn rhaid wrth lawer iawn o ymroddiad gan bob partner ynghyd â chydnabyddiaeth o'r rôl bwysig sydd gan gynllunio yn y gwaith o sicrhau datblygu cynaliadwy yng Nghymru.

### Y Cynllun Gweundir

**Glyn Davies:** Faint o ffermwyr yng Nghymru sy'n cymryd rhan yn y cynllun gweundir? (WAQ27604)

**Carwyn Jones:** Mae chwech o ffermwyr yn cymryd rhan yn y cynllun gweundir.

### Canllawiau Pellach am Waredu Deunydd Categori 3

**Alun Ffred Jones:** Ymhellach i'ch ateb i'm cwestiwn am waredu deunydd categori 3 (WAQ27384), a allwch roi rhyw awgrym o amserlen parthed llunio canllawiau pellach? (WAQ27613) [W]

**Carwyn Jones:** Caiff canllawiau pellach eu darparu cyn i'r ddeddfwriaeth ddomestig gael ei rhoi ar waith yng Nghymru. Yr ydym yn gweithio ar y rheoliadau drafft—caiff y ddeddfwriaeth ei gweithredu cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

### System Delathrebu Tetra

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyflwyno system delathrebu Tetra yng Nghymru ac unrhyw benderfyniadau a wnaed ganddo mewn perthynas â Tetra? (WAQ27614)

**Carwyn Jones:** Airwave yw'r gwasanaeth cyfathrebu digidol cyntaf drwy'r DU gyfan a gynlluniwyd o dan arweiniad y Swyddfa Gartref ar gyfer heddluoedd Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae gan y cwmni ffonau symudol O2 gontract gyda'r Swyddfa Gartref i gyflwyno Airwave ar draws y DU. Y nod yw disodli'r rhwydwaith analog presennol, sydd erbyn hyn yn hen, yn ddarniog ac yn annigonol yn weithredol. Bydd Airwave yn rhoi gwell darpariaeth radio i'r heddluoedd mewn ardaloedd gwledig ynghyd â manteision eraill megis gwell ansawdd llais a diogelwch. Rhaid codi mastiau Tetra er mwyn cyflwyno'r gwasanaeth radio hwn.

Derbyniodd y Cynulliad yr apêl gynllunio gyntaf ynglyn â mast Tetra arfaethedig ym mis Chwefror 2002 ac, ers hynny, mae saith apêl arall wedi dod i law. Mae pob un o'r wyth apêl yn cyfeirio at dir yn ardal Abertawe. Caniatawyd dwy apêl, gwrthodwyd tair, ac ni wnaed penderfyniad eto ar dair.

### Ceisiadau Cynllunio ar gyfer Mastiau Tetra

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y canllawiau a roddwyd i awdurdodau lleol ynghylch ceisiadau cynllunio ar gyfer mastiau Tetra? (WAQ27615)

**Carwyn Jones:** Mae canllawiau sy'n berthnasol i reoli datblygu a mastiau telathrebu, gan gynnwys mastiau Tetra, i'w gweld yn adran 12.13 o 'Polisi Cynllunio Cymru' (Mawrth 2002), yr ychwanegwyd ato gan Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 19, 'Telathrebu' (Awst 2002). Mae'r 'Cod Arferion Gorau ar Ddatblygu Rhwydwaith Ffonau Symudol' a gyhoeddwyd gan y Cynulliad yn ddiweddar (Gorffennaf 2003) yn ymhelaethu ar y canllawiau hynny.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Tlodi Plant

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y diffiniad o dlodi plant a ddefnyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ27497)

**Ann Jones:** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyfrannu at adolygiad yr Adran Gwaith a Phensiynau o'r dewisiadau i ddatblygu ffordd gadarnach o fesur tlodi plant? (WAQ27498)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Nid oes un diffiniad o dlodi plant, ond cyfeirir at fesur sy'n ymdrin ag incwm isel yn aml yn y cyd-destun hwn. Y mesur yw'r gyfran o blant sy'n byw mewn aelwydydd sydd ag incwm is na throthwy cyfartaledd Prydain Fawr.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd yn trafod â'r sector gwirfoddol ac academyddion natur tlodi plant yng Nghymru. Un o'r amcanion yw nodi rhestr o ddangosyddion y gellid eu defnyddio i fesur yn effeithiol y gwaith o fynd i'r afael â thlodi. Caiff y gwaith hwn ei dywys yn ei flaen fel rhan o gylch gorchwyl y tasglu tlodi plant a sefydlwyd yn gynharach eleni.

Ar lefel y DU, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi ymgynghori'n eang ynghylch mesurau o dlodi plant, a chyhoeddwyd casgliadau rhagarweiniol ym mis Mai 2003. Bydd yr adran yn gwneud rhagor o waith methodolegol cyn penderfynu ar wedd derfynol y mesur tymor hir erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r adran wedi ymgynghori â chyfarwyddiaeth ystadegau y Cynulliad ac wedi darparu crynodeb sy'n manylu ar y cynlluniau polisi a'r gwaith ymchwil cyfredol yn y maes hwn sy'n berthnasol i Gymru.

### 'Moddion i Lwyddo'

**David Melding:** Pryd y bydd y Gweinidog yn gwneud datganiad mewn ymateb i'r broses ymgynghori ar 'Moddion i Lwyddo'? (WAQ27566)

**Jane Hutt:** Yr ydym yn y broses o werthuso'r 105 o ymatebion manwl i'r ymgynghoriad. Caiff datganiad ei gyhoeddi pan fydd yr y gwaith hwn wedi'i gwblhau.

## Byrddau Iechyd Lleol

**Jenny Randerson:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu rhoi mwy o gymorth ariannol i fyrddau iechyd lleol na'r arian sydd wedi'i ddyrannu hyd yn hyn i helpu gyda'r diffygion ariannol mae'r byrddau wedi eu hetifeddu? (WAQ27569)

**Jane Hutt:** Mae rhai byrddau iechyd lleol yn dal mewn sefyllfa waelodol o ddiffyg ariannol ar ôl yr arian ychwanegol a gyhoeddais ar 1 Ebrill. Mae'r byrddau hyn yn cwblhau cynlluniau ariannol a fydd yn rhoi fframwaith ac amserlen er mwyn adfer cydbwysedd ariannol, a disgwylir i hynny ddigwydd, fan bellaf, erbyn 31 Mawrth 2006. Cyn gynted ag y cytunir ar y cynlluniau hyn gyda'm swyddogion, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cymorth arianol i'r byrddau hyn, os bydd angen, ar ffurf benthyciadau ad-daladwy. Disgwylir i'r benthyciadau gael eu had-dalu erbyn 31 Mawrth 2009. Nid yw'n fwriad gennyf ddarparu cymorth arianol arall i'r byrddau iechyd lleol i helpu eu sefyllfa ariannol waelodol.

## Safle Ysbyty Brenhinol Caerdydd

**Jenny Randerson:** A yw'r trafodaethau'n parhau â Helical Bar ccc ynghylch safle Ysbyty Brenhinol Caerdydd? (WAQ27570)

**Jenny Randerson:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Helical Bar ccc ynghylch gwaredu safle Ysbyty Brenhinol Caerdydd? (WAQ27571)

**Jenny Randerson:** A yw trafodaethau â Helical Bar ccc ar waredu safle Ysbyty Brenhinol Caerdydd wedi bod ynghylch yr holl safle neu ddim ond ynghylch y rhan o'r safle sydd ar brydles? (WAQ27573)

**Jane Hutt:** Gwneir y penderfyniad terfynol pa un ai ailddefnyddio ynteu gau safle Ysbyty Brenhinol Caerdydd ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd, a mater i'r GIG yn llwyr fydd hynny. Yn y cyfamser, yn unol ag arferion da, mae trafodaethau rhagarweiniol yn parhau rhwng swyddogion Llywodrath Cynulliad Cymru a Helical Bar ccc, sydd yn ystyried yr ad-drefnu posibl ar y gwasanaethau iechyd lleol. Mae'r trafodaethau hyn wedi cwmpasu nifer o agweddau ac wedi cynnwys pob rhan o'r safle. Ni fûm i'n bersonol yn rhan o unrhyw gyfarfodydd ac nid wyf ychwaith wedi cael unrhyw drafodaethau uniongyrchol gyda Helical Bar ccc.

## Y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith (Meddygon Iau)

**Jenny Randerson:** Beth yw cyfanswm y gost a amcangyfrifir ar gyfer Cymru er mwyn bodloni gofynion y gyfarwyddeb oriau gwaith ar gyfer meddygon iau? (WAQ27572)

**Jane Hutt:** Mae Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru wedi cael ei chomisiynu i fwrw cyfrif o'r costau i'r ymddiriedolaeth ac mae yn y broses o wneud hynny. Bydd ffrwyth ei gwaith yn cael ei drin fel patrwm i eraill. Y bwriad yw gofyn i'r holl ymddiriedolaethau yng Nghymru asesu'r costau a darparu amcangyfrifon erbyn diwedd mis Medi 2003.

## Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd

**Jenny Randerson:** Ar ôl dyrannu'r arian i fyrddau iechyd lleol i'w helpu gyda'r diffygion ariannol y maent wedi'u hetifeddu, pa mor fawr yw'r diffygion ariannol sy'n wynebu bwrdd iechyd lleol newydd Caerdydd? (WAQ27574)

**Jane Hutt:** Nid yw'r pedwar bwrdd iechyd lleol a olynydd Awdurdod Iechyd Bro Taf eto wedi cwblhau'r broses o ddadgyfuno'r ymrwymiadau ariannol yr oedd yr awdurdod iechyd wedi ymrwymo iddynt i lefel

y byrddau iechyd unigol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn monitro'n ofalus hynt y gwaith o gwblhau'r dadgyfuno hwn, sydd yn cael ei reoli drwy broses y fframwaith gwasanaeth ac ariannol. Cyfarfu fy swyddogion â chyfarwyddwyr cyllid y pedwar bwrdd iechyd lleol yn ardal Bro Taf yn ddiweddar i adolygu a dadansoddi maint y diffyg gwaelodol y mae'r byrddau yn ei ddarogan. Mae'r amcangyfrif o'r diffyg gwaelodol sy'n cael ei briodoli i fwrdd iechyd lleol Caerdydd yn £9 miliwn ar hyn o bryd.

### Atebolrwydd Ymddiriedolaethau'r GIG

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar atebolrwydd ymddiriedolaethau'r GIG i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol? (WAQ27596)

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi diagram atebolrwydd yn dangos cyfrifoldebau prif weithredwyr ymddiriedolaeth'r GIG i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol? (WAQ27609)

**Jane Hutt:** Mae cadeiryddion ymddiriedolaethau GIG Cymru yn atebol i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae prif weithredwyr ymddiriedolaethau GIG yn atebol i fyrddau'r ymddiriedolaethau ac, fel swyddogion cyfrifo, i gyfarwyddwr GIG Cymru.

### Prif Weithredwyr Ymddiriedolaethau'r GIG

**Alun Cairns:** Faint o lythyron o gerydd sydd wedi'u hanfon yn erbyn prif weithredwyr ymddiriedolaethau'r GIG dros y pedair blynedd diwethaf? (WAQ27610)

**Jane Hutt:** Gan fod prif weithredwyr ymddiriedolaethau GIG yn atebol, fel swyddogion cyfrifo, i gyfarwyddwr GIG Cymru, cyfrifoldeb y cyfarwyddwr yw asesu perfformiad y prif weithredwyr unigol yn flynyddol. Ceir adegau hefyd pan fydd y cyfarwyddwr yn ysgrifennu at neu'n siarad â phrif weithredwyr unigol am agweddau ar berfformiad yr ymddiriedolaeth o fewn fframwaith sy'n hybu gwella parhaus.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

### Y Mynegai Amlamddifadedd

**Ann Jones:** A fydd mynegai amlamddifadedd nesaf Cymru yn cynnwys mesur o dlodi plant? (WAQ27489)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Mae uned data llywodraeth leol Cymru wedi comisiynu'r Athro Robson ym Mhrifysgol Manceinion i ymchwilio i opsiynau i ddiweddaru mynegai amlamddifadedd Cymru yn wyneb y newidiadau yn y theori a'r data sydd ar gael.

Yr oedd y gwaith ar fynegai amlamddifadedd Cymru 2000 yn mesur y gyfran o blant o dan 16 oed oedd yn byw mewn teuluoedd a oedd yn dibynnu ar fudd-daliadau sy'n ddarostyngedig i brawf modd er nad oedd y mesur hwn, am resymau technegol, yn elfen benodol o'r mynegai gan ei fod yn cael ei gynnwys fel rhan o'r parth incwm.

Mae gwaith y grŵp gorchwyl tlodi plant hefyd yn berthnasol. Un o dasgau'r grŵp yw adolygu'r wybodaeth bresennol am yr hyn sy'n achosi ac yn pennu tlodi plant yng Nghymru, a nodi amryw o ddangosyddion y gellid eu defnyddio i fesur yn effeithiol y gwaith o fynd i'r afael ag ef.

### Gwasanaethau Adfer ym Maes Cyffuriau

**Alun Cairns:** Pa dargedau sydd ar gyfer darparu gwasanaethau adfer ym maes cyffuriau? (WAQ27586)

**Edwina Hart:** Dim.

**Gwasanaethau Adfer ym Maes Cyffuriau (Amseroedd Aros)**

**Alun Cairns:** Pa gofnodion ynghylch amseroedd aros sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau adfer ym maes cyffuriau? (WAQ27587)

**Edwina Hart:** Nid oes gwybodaeth am amseroedd aros yn cael ei chadw'n ganolog.

**Cymunedau yn Gyntaf**

**Alun Cairns:** Beth yw rôl y sector preifat yn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf? (WAQ27588)

**Edwina Hart:** Mae'r sector preifat yn chwarae rhan allweddol yn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, gan gynnwys bod yn aelod o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf. Mae dros 100 o gwmnïau wedi darparu amrywiaeth eang o gymorth i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r Cynulliad yn ariannu busnes yn y gymuned er mwyn denu'r sector preifat i'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen.

**Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf**

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn dweud a oes hawl gan bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf fod yn berchen ar eiddo, ac a oes cyllid cyfalaf ar gael i brynu eiddo i'r partneriaethau? (WAQ27589)

**Edwina Hart:** Gall partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf fod yn berchen ar eiddo cyhyd â'i bod yn endid cyfreithiol sydd â chyfansoddiad ffurfiol. Mae cyllid cyfalaf ar gael i bartneriaethau o'r fath ar gyfer prynu eiddo.

**Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf**

**Alun Cairns:** Faint o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf y mae'r sector preifat yn aelod ohonynt? (WAQ27590)

**Edwina Hart:** Ar hyn o bryd, mae 80 o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn egin gyfnod eu datblygiad. O ganlyniad, mae cyfansoddiad partneriaethau o'r fath yn dal yn ansefydlog. Pan fydd y partneriaethau wedi eu sefydlu'n iawn, dylai aelodaeth y sector preifat gael ei gynrychioli'n llawn.